Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip

25 Mawrth 2022

Annwyl Dawn,

Y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael)

Diolch am eich ymateb, ar 17 Mawrth, i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael), ac am roi copi o'ch llythyr ar 16 Mawrth at y Llywydd mewn perthynas â'r Bil. Trafodwyd y ddau lythyr yn ein cyfarfod ar 21 Mawrth.

Rydym yn siomedig na fu'n bosibl dod i gytundeb ar welliant i'r Bil i ddarparu eithriad o gymhwyso paragraff 11(1)(a) o Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, sydd wedi arwain at gyflwyno gwelliannau i ddileu darpariaethau i Gymru o'r Bil.

Rydym yn pryderu bod y digwyddiadau hyn yn cynrychioli methiant yn y cysylltiadau rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mor fuan ar ôl rhoi prosesau rhynglywodraethol newydd ar waith. Mae hyn yn bryder rydym hefyd wedi'i godi gyda'r Prif Weinidog.

Gan fod cyflwr presennol y cysylltiadau rhynglywodraethol a'r broses cydsyniad deddfwriaethol o ddiddordeb arbennig i ni, hoffem gael dealltwriaeth fanwl o sut y daeth y materion hyn i'r amlwg wrth ddatblygu'r Bil hwn ac yn ystod ei hynt. Rydych yn cyfeirio at lythyr gweinidog ar 25 Ionawr yn eich llythyr chi; byddem yn ddiolchgar i gael copi, ac o unrhyw ohebiaeth berthnasol arall neu gofnodion cyfarfodydd perthnasol y gallwch eu rhannu.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; a'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd